E6. Sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni ym maes eich cyfrifoldeb

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rheoli proses gyffredinol iechyd a diogelwch ym maes eich cyfrifoldeb. Y bwriad yw y bydd yn mynd y tu hwnt i gyflawni deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac yn symud tuag at sefyllfa lle mae ystyriaethau iechyd a diogelwch yn rhan annatod o brosesau cynllunio a phenderfynu a 'diwylliant' maes eich cyfrifoldeb.

Gallai'r 'maes cyfrifoldeb' fod, er enghraifft, yn gangen neu'n adran, neu'n faes swyddogaethol neu'n safle gweithredu o fewn sefydliad.

Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf a rheolwyr canol.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **D6. Dyrannu gwaith ym maes eich cyfrifoldeb a monitro ei gynnydd a'i ansawdd**, **E5. Sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch** ac **E7. Sicrhau bod eich sefydliad yn trin iechyd a diogelwch yn effeithiol** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni ym maes eich cyfrifoldeb. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Ymgynghori
- Rheoli gwybodaeth
- Gwneud penderfyniadau
- Cynnwys pobl eraill
- Gofyn cwestiynau
- Meddwl yn systematig
- Monitro
- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Adolygu
- Cyflwyno gwybodaeth
- Blaenoriaethu
- Adrodd
- Cynllunio

© MSC, Mehefin 2004

E6. Sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni ym maes eich cyfrifoldeb

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
2. Sicrhau bod datganiad polisi ysgrifenedig iechyd a diogelwch y sefydliad yn cael ei gyfleu'n eglur i'r holl bobl ym maes eich cyfrifoldeb a'r holl garfanau eraill perthnasol.
3. Sicrhau bod y datganiad polisi iechyd a diogelwch yn cael ei roi ar waith ym maes eich cyfrifoldeb a'i fod yn cael ei adolygu wrth i sefyllfaoedd newid **ac** yn rheolaidd, a bod y darganfyddiadau'n cael eu trosglwyddo i'r bobl briodol i'w hystyried.
4. Sicrhau bod ymgynghori rheolaidd â phobl ym maes eich cyfrifoldeb, neu eu cynrychiolwyr, ar faterion iechyd a diogelwch.
5. Ceisio a defnyddio arbenigedd arbenigol ynglyn â materion iechyd a diogelwch.
6. Sicrhau bod system ar waith i nodi peryglon ac asesu risgiau ym maes eich cyfrifoldeb a bod camau effeithiol yn cael eu cymryd yn ddiymdroi i gael gwared ar beryglon a risgiau a nodir neu i reoli'r rhain.
7. Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro, mesur ac adrodd yn effeithiol ar berfformiad iechyd a diogelwch ym maes eich cyfrifoldeb.
8. Dangos gwelliant parhaus ym maes eich cyfrifoldeb o ran perfformiad iechyd a diogelwch.
9. Gwneud iechyd a diogelwch yn faes blaenoriaeth wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio a phenderfynu ym maes eich cyfrifoldeb.
10. Dangos bod yr hyn rydych chi yn ei wneud eich hunan yn atgyfnerthu'r negeseuon sydd yn natganiad polisi iechyd a diogelwch y sefydliad.
11. Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu ym maes eich cyfrifoldeb drwyddo draw i ddelio â materion iechyd a diogelwch.
12. Datblygu diwylliant ym maes eich cyfrifoldeb sy'n rhoi'r flaenoriaeth i 'iechyd a diogelwch'.

© MSC, Mehefin 2004

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn ymateb yn gyflym i argyfyngau a phroblemau ag unrhyw weithredu arfaethedig.
2. Byddwch yn nodi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar bobl.
3. Byddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau'r sefydliad a chodau proffesiynol, ac yn sicrhau bob eraill yn cydymffurfio â'r rhain.
4. Byddwch yn effro i risgiau a pheryglon posibl.
5. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.
6. Byddwch yn nodi goblygiadau neu ganlyniadau sefyllfa.
7. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
8. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
9. Byddwch yn trin unigolion â pharch ac yn gweithredu i sicrhau eu hawliau.

© MSC, Mehefin 2004

E6. Sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni ym maes eich cyfrifoldeb

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Pam mae iechyd a diogelwch yn y gweithle yn bwysig
2. Sut a lle i nodi eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd personol dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
3. Sut i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch
4. Y gofyniad i sefydliadau fod â datganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig
5. Sut i gyfleu datganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig y sefydliad i'r holl bobl ym maes eich cyfrifoldeb a'r holl garfanau perthnasol eraill.
6. Sut a phryd i adolygu sut y defnyddir y datganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig ym maes eich cyfrifoldeb a chynhyrchu/darparu darganfyddiadau i'w hystyried wrth ddatblygu
7. Sut a phryd i ymgynghori â phobl ym maes eich cyfrifoldeb, neu eu cynrychiolwyr, ar faterion iechyd a diogelwch.
8. Ffynonellau arbenigedd arbenigol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch
9. Dulliau o ddatblygu diwylliant ym maes eich cyfrifoldeb sy'n rhoi'r flaenoriaeth i 'iechyd a diogelwch'.
10. Y mathau o beryglon a risgiau a allai godi mewn perthynas ag iechyd a diogelwch – sut i sefydlu a defnyddio systemau i nodi peryglon ac asesu risgiau a'r mathau o gamau y dylid eu cymryd i'w rheoli neu gael gwared arnynt
11. Sut i sefydlu systemau i fonitro, mesur ac adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch ym maes eich cyfrifoldeb
12. Pam a sut dylai iechyd a diogelwch ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio a phenderfynu
13. Pwysigrwydd gosod esiampl dda i eraill o ran iechyd a diogelwch
14. Y mathau o adnoddau sy'n ofynnol i ddelio â materion iechyd a diogelwch

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ac sy'n benodol i'r sector
2. Risgiau, materion a datblygiadau iechyd a diogelwch sy'n benodol i'r diwydiant neu'r sector

© MSC, Mehefin 2004

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Carfanau perthnasol eraill sydd â diddordeb mewn iechyd a diogelwch ym maes eich cyfrifoldeb
2. Datganiad polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig y sefydliad a sut mae'n cael ei gyfleu i bobl sy'n gweithio i'r sefydliad, pobl yn eich maes a charfanau eraill perthnasol
3. Ffynonellau arbenigedd iechyd a diogelwch arbenigol a ddefnyddir ym maes eich arbenigedd
4. Cynlluniau gweithredu maes eich cyfrifoldeb
5. Yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu i faes eich cyfrifoldeb, ac ar draws y maes, ar gyfer iechyd a diogelwch
6. Cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch sydd wedi'u dyrannu i'ch maes ac i'r sefydliad yn gyffredinol
7. Systemau sydd ar waith ym maes eich cyfrifoldeb i nodi peryglon, asesu risgiau a gweithredu
8. Systemau sydd ar waith i fonitro, mesur ac adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch ym maes eich cyfrifoldeb

© MSC, Mehefin 2004